




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Fframwaith Cyflawni a Chanllawiau Adrodd GIG Cymru 2018-2019

Mawrth 2018



Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---------|
| Fframwaith Cyflawni'r GIG 2018-19 | 2 |
| Canllawiau Adrodd | 10 |
| Cyflwyniad | 11 |
| Cymeradwyo safonau data | 11 |
| Adrodd ar hunanasesu | 11 |
| Mesurau newydd | 12 |
| Mesurau diwygiedig | 13 |
| Mesurau sydd wrthi'n cael eu datblygu | 13 |
| Mesurau sydd wedi'u dileu | 13 |
| Monitro perfformiad ac adrodd arno | 14 |
| Mesurau Cyflawni'r GIG | 15 |
| Cadw'n iach | 16 |
| Gofal diogel | 18 |
| Gofal effeithiol | 22 |
| Gofal gydag urddas | 25 |
| Gofal amserol | 28 |
| Gofal unigol | 34 |
| Ein staff a'n hadnoddau | 37 |
| Crynodeb o Ddiwygiadau i Fesurau | 39 |
| Templedi Adrodd | 48 |
| Cydymffurfio â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | 49 |
| Cydymffurfio â bwndel chwe cham sepsis a gymhwysir o fewn 1 awr | 50 |
| Thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty | 51 |
| Tystiolaeth o sut mae sefydliadau'r GIG yn ymateb i brofiad defnyddwyr gwasanaethau er mwyn gwella gwasanaethau | 53 |
| Hyfforddiant ar ddementia | 54 |
| Tystiolaeth o ddatblygu cydraddoldeb a chydberthnasau da mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd yn sefydliadau'r GIG | 55 |
| Gwella iechyd a lles pobl ddigartref a grwpiau penodol sy'n agored i niwed | 58 |
| Cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch | 60 |
| Rhoi canllawiau'r iaith Gymraeg ar waith fel y'u diffiniwyd yn 'Mwy na Geiriau' | 63 |
| Mesurau o 2017-18 nad ydynt wedi'u trosglwyddo i Fframwaith Cyflawni'r GIG ar gyfer 2018-19 | 65 |

FFRAMWAITH CYFLAWNI GIG CYMRU

2018-19

CADW'N IACH: Mae pobl yng Nghymru yn cael y wybodaeth a'r cymorth i reoli eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl eu hunain

| Dangosydd Cenedlaethol a Chanlyniad Iechyd y Cyhoedd | Datganiad Canlyniadau'r GIG | Mesur Cyflawni'r GIG |
|--|--|---|
| <p>Dangosyddion Cenedlaethol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Pwysau geni isel - Y bwlch mewn disgwyliad oes iach ar enedigaeth rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig - Sgôr lles meddyliol i oedolion <p>Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd</p> <ul style="list-style-type: none"> - Disgwyliad oes iach ar enedigaeth - Cyfraddau brechu yn 4 oed - Plant 5 oed o bwysau iach - Y bwlch mewn lles meddyliol rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ymysg oedolion - Oedolion o oedran gweithio mewn iechyd da - Pobl hŷn mewn iechyd da - Oedolion o oedran gweithio sy'n rhydd o salwch hirdymor cyfyngol - Pobl hŷn sy'n rhydd o salwch hirdymor cyfyngol - Bwlch yn y gyfradd gyflogaeth i'r sawl sydd â chyflwr iechyd hirdymor - Smygu yn ystod beichiogrwydd - Oedolion sy'n smygu - Marwolaethau cynamserol oherwydd clefydau nad ydynt yn drosglwyddadwy | <p>Mae fy mhlant yn cael dechrau iach mewn bywyd</p> <p>Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud y pethau sy'n cadw fy hun yn iach</p> <p>Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy iechyd a lles</p> | <p>Canran y merched beichiog sy'n rhoi'r gorau i smygu yn ystod beichiogrwydd</p> <p>Cyfraddau brechu yn ystod plentyndod ar gyfer brechiadau '6 mewn 1' ac MMR</p> <p>Gweithredu elfen cyswllt ymwelydd iechyd 10-14 diwrnod o Raglen Plant Iach Cymru</p> <p>Cyrraedd y targedau ffliw cenedlaethol</p> <p>Canran y smygwyr sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu a'r gyfradd dilysu carbon monocsid.</p> <p>Canran y bobl sydd ag anableddau dysgu sy'n cael archwiliad iechyd blynyddol</p> |

GOFAL DIOGEL: Caiff pobl yng Nghymru eu hamddiffyn rhag niwed a chânt gefnogaeth i amddiffyn eu hunain rhag niwed hysbys

| <p>Dangosydd Cenedlaethol a Chanlyniad Iechyd y Cyhoedd</p> | <p>Datganiad Canlyniadau'r GIG</p> | <p>Mesur Cyflawni'r GIG</p> |
|--|--|--|
| <p>Dangosyddion Cenedlaethol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Sgôr lles meddyliol ar gyfer pobl (plant a phobl ifanc ac oedolion) - Pobl sy'n unig <p>Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y bwlch mewn lles meddyliol rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ymysg plant a phobl ifanc - Y bwlch mewn lles meddyliol rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ymysg oedolion - Oedolion o oedran gweithio mewn iechyd da - Pobl hŷn mewn iechyd da - Oedolion o oedran gweithio sy'n rhydd o salwch hirdymor cyfyngol - Pobl hŷn sy'n rhydd o salwch hirdymor cyfyngol - Bodddhad bywyd ymysg oedolion o oedran gweithio - Bodddhad bywyd ymysg pobl hŷn - Pobl hŷn o bwysau iach - Torri clun ymysg pobl hŷn - Marwolaethau cynamserol oherwydd clefydau allweddol nad ydynt yn drosglwyddadwy - Hunanladdiad | <p>Rwy'n cael cymorth i amddiffyn fy iechyd fy hun a'm teulu</p> <p>Rwy'n ddiogel a chaf fy amddiffyn rhag niwed drwy ofal, triniaeth a chymorth o ansawdd uchel</p> <p>Rwy'n ddiogel a chaf fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod</p> | <p>Cydymffurfiaeth ganrannol ar gyfer staff a benodir i rolau newydd lle mae angen cynnal archwiliad o restr gwaharddedig plant neu oedolion</p> <p>Nifer yr achosion o dderbyn cleifion i'r ysbyty lle ceir unrhyw sôn am hunan-niweidio bwriadol ar gyfer plant a phobl ifanc (10-14 oed) fesul 1,000 o'r boblogaeth.</p> <p>Cyfradd marwolaethau y gellid eu hosgoi drwy driniaeth (safonedig)</p> <p>Gwelliant yn y gyfradd gydymffurfio â bwndel chwe cham sepsis a gyflwynir o fewn 1 awr</p> <p>Nifer yr achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty y gellid bod wedi eu hatal</p> <p>Cyrhaeddiad o ran y dangosyddion rhagnodi cenedlaethol ar gyfer eitemau gwrthfacterol</p> <p>Cyflawni'r gostyngiad cenedlaethol a ddisgwylir ar gyfer achosion bacteremia <i>E.coli</i>, <i>C.difficile</i> ac <i>S.aureus</i></p> <p>Swm dyddiol cyfartalog o gyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd fesul 1,000 STAR-PU (uned ragnodi grŵp therapiwtig penodol sy'n gysylltiedig ag oedran)</p> <p>Cydymffurfio â'r system adrodd am ddiogelwch cleifion</p> <p>Cyfraddau digwyddiadau difrifol a digwyddiadau byth ym mhob lleoliad gofal</p> <p>Perfformiad yn erbyn themâu safon iechyd a gofal allweddol: maeth a hydradiad wlsrau pwysu; rheoli meddyginiaethau; gofal ymataliaeth a chwympiadau</p> |

GOFAL EFFEITHIOL: Mae pobl yng Nghymru yn cael y gofal a chymorth cywir mor lleol â phosibl a chânt eu galluogi i gyfrannu at sicrhau bod y gofal hwnnw yn llwyddiannus

| Dangosydd Cenedlaethol a Chanlyniad Iechyd y Cyhoedd | Datganiad Canlyniadau'r GIG | Mesur Cyflawni'r GIG |
|---|--|---|
| <p>Dangosyddion Cenedlaethol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y bwlch mewn disgwyliad oes iach ar enedigaeth rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig - Sgôr lles meddyliol ar gyfer pobl (plant a phobl ifanc ac oedolion) <p>Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd</p> <ul style="list-style-type: none"> - Disgwyliad oes iach ar enedigaeth - Y bwlch mewn lles meddyliol rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ymysg plant a phobl ifanc - Y bwlch mewn lles meddyliol rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ymysg oedolion - Oedolion o oedran gweithio mewn iechyd da - Pobl hŷn mewn iechyd da - Oedolion o oedran gweithio sy'n rhydd o salwch hirdymor cyfyngol - Pobl hŷn sy'n rhydd o salwch hirdymor cyfyngol - Bodddhad bywyd ymysg oedolion o oedran gweithio - Bodddhad bywyd ymysg pobl hŷn - Bwlch yn y gyfradd gyflogaeth i'r sawl sydd â chyflwr iechyd hirdymor - Marwolaethau cynamserol oherwydd clefydau allweddol nad ydynt yn drosglwyddadwy | <p>Caiff cymorth iechyd a gofal ei ddarparu mor agos â phosibl at fy nghartref</p> <p>Mae ymyriadau er mwyn gwella fy iechyd yn seiliedig ar ymchwil ac arfer gorau amserol o ansawdd da</p> | <p>Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal gan y bwrdd iechyd. Iechyd meddwl (pob oedran) ac achosion nad ydynt yn gysylltiedig ag iechyd meddwl (75+ oed)</p> <p>Gweithredu adolygiad o farwolaethau nodiadau achos cyffredinol</p> <p>Cyfradd marwolaethau ysbytai crai (74 oed neu iau)</p> <p>Canran y staff sy'n cwblhau hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth (Cymru)</p> <p>Safonau ansawdd data: cyflawnrwydd codio clinigol; cywirdeb codio clinigol</p> <p>Cyflwyno meddyginiaethau newydd yn amserol (Cronfa Triniaethau Newydd)</p> <p>Gweithredu astudiaethau portffolio ymchwil glinigol ac astudiaethau a noddir yn fasnachol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a chyfranogiad cleifion yn yr astudiaethau hyn</p> |

GOFAL GYDAG URDDAS: Caiff pobl yng Nghymru eu trin ag urddas a pharch ac maent yn parchu ac yn trin eraill yn yr un modd

| Dangosydd Cenedlaethol a Chanlyniad Iechyd y Cyhoedd | Datganiad Canlyniadau'r GIG | Mesur Cyflawni'r GIG |
|---|---|---|
| <p>Dangosyddion Cenedlaethol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Sgôr lles meddyliol ar gyfer pobl (plant a phobl ifanc ac oedolion) - Pobl sy'n unig - Ymdeimlad o gymuned <p>Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y bwlch mewn lles meddyliol rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ymysg plant a phobl ifanc - Y bwlch mewn lles meddyliol rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ymysg oedolion - Oedolion o oedran gweithio mewn iechyd da - Pobl hŷn mewn iechyd da - Oedolion o oedran gweithio sy'n rhydd o salwch hirdymor cyfyngol - Pobl hŷn sy'n rhydd o salwch hirdymor cyfyngol - Boddhad bywyd ymysg oedolion o oedran gweithio - Boddhad bywyd ymysg pobl hŷn | <p>Rwy'n cael gwasanaeth o ansawdd ym mhob lleoliad gofal</p> | <p>Y sgôr gyfartalog a roddir gan y cyhoedd (16+ oed) ar gyfer boddhad cyffredinol â gwasanaethau iechyd yng Nghymru*</p> |
| | <p>Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno</p> | <p>Triniaethau a ohiriwyd naill ai ar y diwrnod neu'r diwrnod cynt am resymau anghlinigol</p> |
| | <p>Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un modd</p> | <p>Cyfradd dangosyddion rhagnodi cenedlaethol ar gyfer meddyginiaethau gwrthgolinergig</p> |
| | <p>Tystiolaeth o sut mae sefydliadau'r GIG yn ymateb i brofiad defnyddwyr gwasanaethau er mwyn gwella gwasanaethau</p> | |
| | <p>Ymdrin â phryderon a chwynion mewn modd amserol ac ymatebol</p> | |
| | <p>Canran y bobl (65 oed neu hŷn) sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu sydd wedi cael diagnosis o ddementia</p> | |
| | <p>Canran yr oedolion (16+ oed) a nododd eu bod yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar y gofal a ddarperir gan eu meddyg teulu</p> | |
| | <p>Canran yr oedolion (16+ oed) a nododd eu bod yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar y gofal a gawsant yn un o ysbytai'r GIG</p> | |
| | <p>Canran y staff a gyflogir gan y GIG sy'n cwblhau hyfforddiant ar ddementia ar lefel wybodus</p> | |
| <p>Canran y timau practisau meddygon teulu sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar ddementia neu hyfforddiant arall fel yr amlinellir o dan y Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd ar gyfer salwch meddwl</p> | | |

* Dim ond bob dwy flynedd yr adroddir ar y mesur hwn.

GOFAL AMSEROL: Caiff pobl yng Nghymru fynediad amserol at wasanaethau yn seiliedig ar angen clinigol ac maent yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal

| Dangosydd Cenedlaethol a Chanlyniad Iechyd y Cyhoedd | Datganiad Canlyniadau'r GIG | Mesur Cyflawni'r GIG |
|---|---|--|
| <p>Dangosyddion Cenedlaethol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y bwlch mewn disgwyliad oes iach ar enedigaeth rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig - Sgôr lles meddyliol ar gyfer pobl (plant a phobl ifanc ac oedolion) <p>Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd</p> <ul style="list-style-type: none"> - Disgwyliad oes iach ar enedigaeth - Y bwlch mewn lles meddyliol rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ymysg plant a phobl ifanc - Y bwlch mewn lles meddyliol rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ymysg oedolion - Pydredd dannedd ymysg plant 5 oed - Oedolion o oedran gweithio mewn iechyd da - Pobl hŷn mewn iechyd da - Oedolion o oedran gweithio sy'n rhydd o salwch hirdymor cyfyngol - Pobl hŷn sy'n rhydd o salwch hirdymor cyfyngol - Bwlch yn y gyfradd gyflogaeth i'r sawl sydd â chyflwr iechyd hirdymor - Pobl hŷn o bwysau iach - Torri clun ymysg pobl hŷn - Marwolaethau cynamserol oherwydd clefydau nad ydynt yn drosglwyddadwy - Hunanladdiad | <p>Caf fynediad hawdd ac amserol at wasanaethau gofal sylfaenol</p> <p>Er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl, caf ddiagnosis cynnar o'm cyflwr a chaiff ei drin yn unol â'r angen clinigol</p> | <p>Perfformiad yn erbyn mesurau mynediad meddygon teulu allweddol: Pobl sy'n ei chael hi'n anodd gwneud apwyntiad â meddyg teulu; practisau meddygon teulu sydd ar agor yn ystod oriau craidd dyddiol neu o fewn awr i'r oriau craidd dyddiol a; practisau meddygon teulu sy'n cynnig apwyntiadau dyddiol rhwng 17:00 a 18:30</p> <p>Perfformiad yn erbyn dangosyddion gwasanaethau y Tu Allan i Oriau a 111 a ddewiswyd</p> <p>Canran poblogaeth y bwrdd iechyd sy'n manteisio ar ofal deintyddol sylfaenol y GIG</p> <p>Mesurau ar gyfer y cyfnod rhwng atgyfeirio a thriniaeth: 95% yw'r targed 26 wythnos ar gyfer pob oedran a 100% yw'r targed 36 wythnos</p> <p>Cyfnod o aros i gael diagnosis a therapi</p> <p>Gostyngiad mewn apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yn erbyn dyddiad targed y cytunwyd arno</p> <p>Canlyniadau'r broses o gyflawni dangosyddion strôc aciwt</p> <p>Mesurau gofal heb ei drefnu: 65% ambiwlans mewn 8 munud, lleihau cyfnod trosglwyddo ambiwlans 1 awr, 95% aros 4 awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a lleihau nifer yr achosion o aros am 12 awr</p> <p>Safonau canser: targedau 31 a 62 diwrnod (98% a 95%)</p> <p>Canran goroesi o fewn 30 diwrnod i dderbyn claf i'r ysbyty ar frys am dorri ei glun</p> <p>Cyflawni mesurau iechyd meddwl: asesiad o fewn 28 diwrnod; ymyriad therapiwtig o fewn 28 diwrnod; cyswllt gan Wasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol o fewn 5 diwrnod</p> |

Gofal Unigol: Caiff pobl yng Nghymru eu trin fel unigolion sydd â'u hanghenion a'u cyfrifoldebau eu hunain

| Dangosydd Cenedlaethol a Chanlyniad Iechyd y Cyhoedd | Datganiad Canlyniadau'r GIG | Mesur Cyflawni'r GIG |
|--|---|---|
| <p>Dangosyddion Cenedlaethol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y bwlch mewn disgwyliad oes iach ar enedigaeth rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig - Sgôr lles meddyliol ar gyfer pobl (plant a phobl ifanc ac oedolion) - Ymdeimlad o gymuned - Pobl sy'n unig | <p>Lleihau anghydraddoldebau a all fy atal rhag byw bywyd iach</p> | <p>Tystiolaeth o wella cydraddoldeb a chydberthnasau da</p> |
| <p>Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd</p> <ul style="list-style-type: none"> - Disgwyliad oes iach ar enedigaeth | <p>Rwy'n siarad dros fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd, neu mae gennyf rywun a all wneud hynny drosaf</p> | <p>Tystiolaeth o asesiadau a chynllun i nodi a thargedu anghenion grwpiau sy'n agored i niwed o bob oedran yn yr ardal leol</p> |
| <ul style="list-style-type: none"> - Y bwlch mewn lles meddyliol rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ymysg plant a phobl ifanc | <p>Gallaf gael gafael ar y wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy lles</p> | <p>Gweithredu'r safon Cymru gyfan ar gyfer dulliau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch i bobl sydd â nam ar y synhwyrau</p> |
| <ul style="list-style-type: none"> - Y bwlch mewn lles meddyliol rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ymysg oedolion - Oedolion o oedran gweithio mewn iechyd da - Pobl hŷn mewn iechyd da | <p>Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os byddaf am ei gael</p> | <p>Tystiolaeth bod camau gweithredu'r iaith Gymraeg yn cael eu rhoi ar waith fel y'i diffiniwyd yn Mwy na Geiriau</p> |
| <ul style="list-style-type: none"> - Oedolion o oedran gweithio sy'n rhydd o salwch hirdymor cyfyngol - Pobl hŷn sy'n rhydd o salwch hirdymor cyfyngol - Bodddhad bywyd ymysg oedolion o oedran gweithio | <p>Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried</p> | <p>Cyfanswm yr amser a dreulir gartref (nid mewn ysbyty) ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal a chymorth</p> |
| <ul style="list-style-type: none"> - Bodddhad bywyd ymysg pobl hŷn - Glasoed sy'n yfed alcohol - Oedolion sy'n yfed mwy na'r canllawiau | | <p>Nifer y galwadau i linellau cymorth (CALL, Dementia a DAN 24/7) fesul 100,000 o'r boblogaeth</p> |
| <ul style="list-style-type: none"> - Hunanladdiad - Marwolaethau cynamserol oherwydd clefydau nad ydynt yn drosglwyddadwy | | <p>Cyflawni mesurau iechyd meddwl: Cynllun trin gofal ac adroddiadau asesu canlyniadau</p> |

EIN STAFF A'N HADNODDAU: Gall pobl yng Nghymru gael gwybodaeth am sut y darperir adnoddau ar gyfer y GIG a sut i wneud defnydd gofalus ohonynt

| Dangosydd Cenedlaethol neu Ganlyniad Iechyd y Cyhoedd | Datganiad Canlyniadau'r GIG | Mesur Cyflawni'r GIG |
|--|--|---|
| <p>Dangosyddion Cenedlaethol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Pwysau geni isel - Y bwlch mewn disgwyliad oes iach ar enedigaeth rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig <p>Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd</p> <ul style="list-style-type: none"> - Galluogwyr i gefnogi holl ganlyniadau Iechyd y Cyhoedd sy'n gysylltiedig ag Iechyd | <p>Rwy'n gweithio gyda'r GIG er mwyn gwella'r defnydd o adnoddau</p> | <p>Cyfraddau Wedi Colli Apwyntiad ar gyfer meddygon teulu ac apwyntiadau newydd a dilynol i gleifion allanol</p> |
| | <p>Caiff adnoddau eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol er mwyn gwella fy nghanlyniadau Iechyd</p> | <p>Faint o feddyginiaethau biodebyg a ragnodir fel canran o gyfanswm y cynhyrchion 'cyfeirio' ynghyd â meddyginiaethau biodebyg</p> |
| | <p>Staff sydd wedi cael hyfforddiant o ansawdd sy'n llwyr ymroddedig i ddarparu gofal a chymorth ardderchog i mi a'm teulu</p> | <p>Cydymffurfiaeth â chanllawiau 'Peidiwch â Gwneud' NICE ar gyfer gweithdrefnau ag effeithiolrwydd cyfyngedig</p> |
| | | <p>Cyfradd y genedigaethau Cesaraidd dewisol</p> |
| | | <p>Canran y staff sydd wedi cael arfarniad perfformiad ac adolygiad datblygu</p> |
| | | <p>Canran y staff sydd wedi cael arfarniad perfformiad sy'n cytuno ei fod yn eu helpu i wella'r modd maent yn gwneud eu gwaith</p> |
| <p>Sgôr ymgysylltu cyffredinol staff</p> | | |
| <p>Canran y staff sy'n cwblhau hyfforddiant statudol a gorfodol</p> | | |
| <p>Canran cyfradd absenoldeb oherwydd salwch staff</p> | | |
| <p>Canran y staff a fyddai'n fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan eu sefydliad pe byddai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas</p> | | |

FFRAMWAITH CYFLAWNI A CHANLLAWIAU

ADRODD GIG CYMRU

2018-19

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu sut y dylid adrodd ar y mesurau cyflawni yn Fframwaith Cyflawni GIG Cymru ar gyfer 2018-19. Mae'n rhoi:

- Diffiniad o'r mesurau y dylid eu defnyddio i roi tystiolaeth o'r gwasanaethau a ddarperir
- Sut y dylid coladu'r data er mwyn rhoi tystiolaeth o'r gwasanaethau a ddarperir
- Amllder adrodd
- Statws y mesur (h.y. p'un a yw'n newydd, yn ddiwygiedig neu wrthi'n cael ei ddatblygu)
- Y maes polisi yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau gwelliant o ran cyflawniad

Cymeradwyo safonau data

Cynhelir proses sicrhau safonau gwybodaeth ar bob mesur meintiol yn y Fframwaith Cyflawni er mwyn sicrhau bod y dull dadansoddi yn briodol ac wedi'i ddiffinio'n ffurfiol. Cynhelir y broses hon gan y Grŵp Methodolegau Dadansoddi a, phan fydd angen, Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru. Mae dulliau dadansoddi a gymeradwywyd hyd yma gan y Grŵp Methodolegau Dadansoddi ar gael ar wefan Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru. Ar gyfer dulliau sydd wrthi'n cael eu cymeradwyo, disgwylir y bydd y mesur diffiniedig a'r ffynhonnell ddata a amlinellir yn y canllawiau hyn yn dal i gael eu defnyddio.

Adrodd ar Hunanasesu

Er mwyn lleihau'r baich o ran y broses fesur, defnyddiwyd mesurau sydd â ffynhonnell ddata sefydledig. Lle nad oes ffynonellau gwybodaeth cyfredol ar gael, mae templedi adrodd ar hunanasesiad wedi'u datblygu. Bydd y templedi hyn yn galluogi gwybodaeth i gael ei chasglu gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd fel y gellir rhoi tystiolaeth o'r cynnydd yn erbyn y mesurau. Mewn rhai achosion, bydd angen dull mwy ansoddol o fesur y gwasanaethau a ddarperir a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y templedi a ddyfeisiwyd.

Mae'r templedi adrodd ar gyfer y naw mesur canlynol ar gael yn y ddogfen ganllaw hon:

- *Cydymffurfiaeth ganrannol ar gyfer staff a benodir i rolau newydd lle mae angen cynnal archwiliad o restr waharddedig plant neu oedolion*
- *Cydymffurfiaeth ganrannol â bwndel chwe cham sepsis RRAILS a gymhwysir o fewn 1 awr*
- *Nifer yr achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty y gellid bod wedi eu hatal*

- *Tystiolaeth o sut mae sefydliadau'r GIG yn ymateb i brofiad defnyddwyr gwasanaethau er mwyn gwella gwasanaethau*
- *Canran y staff a gyflogir gan y GIG sy'n cwblhau hyfforddiant ar ddementia ar lefel wybodus*
- *Adroddiad ansoddol yn nodi tystiolaeth o ddatblygu cydraddoldeb a chydberthnasau da mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd yn sefydliadau'r GIG*
- *Adroddiad ansoddol yn nodi cynnydd yn erbyn y pum safon sy'n golygu y gellir nodi a thargedu iechyd a lles pobl ddirgaref a grwpiau sy'n agored i niwed*
- *Adroddiad ansoddol yn nodi'r cyflawniadau a wnaed tuag at weithredu'r safonau Cymru gyfan ar gyfer dulliau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch i bobl sydd â nam ar y synhwyrau*
- *Adroddiad ansoddol yn nodi tystiolaeth bod camau gweithredu'r iaith Gymraeg yn cael eu rhoi ar waith fel y'u diffiniwyd yn Mwy na Geiriau.*

Mae'r templedi adrodd ar gyfer y mesurau y soniwyd amdanynt ar gael ar dudalennau 48 i 64.

Mesurau Newydd

Er mwyn adlewyrchu meysydd blaenoriaeth a ddaw i'r amlwg, mae pum mesur newydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith cyflawni ar gyfer eleni, sef:

- Canran y bobl ag anableddau dysgu sy'n cael archwiliad iechyd blynyddol
- Cydymffurfiaeth ganrannol ag elfen hyfforddi Llywodraethu Gwybodaeth (Cymru) lefel 1 a gwblhawyd o'r Fframwaith Sgiliau Craidd a Hyfforddiant
- Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 14 wythnos am therapi penodol
- Canran y cleifion cymwys (gorfodol ac anffurfiol/gwirfoddol) a gafodd eu cyswllt cyntaf â Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol o fewn pum diwrnod gwaith i'w cais
- Cyfanswm yr amser a dreulir gartref (nid mewn ysbyty) ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal a chymorth (mae'r mesur hwn wrthi'n cael ei ddatblygu)

Mesurau diwygiedig

Mae nifer o'r mesurau cyflawni cyfredol wedi'u diwygio ar gyfer Fframwaith 2018-19. Y prif resymau dros y diwygiadau hyn yw: rhoi tystiolaeth o'r effaith gadarnhaol y mae'r cyflawniad yn ei chael ar iechyd a lles dinasyddion Cymru; adlewyrchu newidiadau mewn targedau

cyflawni er mwyn hyrwyddo ac annog gwelliant parhaus a; nodi newidiadau mewn dulliau casglu data a chyfrifo.

Caiff y mesurau cyflawni a ailddiffiniwyd eu hamlygu yng ngholofn statws y canllawiau hyn fel 'diwygiwyd'. Yn ogystal, amlinellir disgrifiad byr o'r diwygiad i'r mesurau darpariaeth unigol mewn tabl crynodeb ar wahân, sef: Crynodeb o Ddiwygiadau i Fesurau (tudalennau 39 i 47).

Mae'r mesurau yn y canllawiau hyn yn disodli pob mesur a gyhoeddwyd yn flaenorol yn Fframwaith Canlyniadau'r GIG / Fframwaith Cyflawni'r GIG / Fframwaith Gweithredu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn hon a blynyddoedd blaenorol.

Mesurau sydd wrthi'n cael eu datblygu

Mae pedwar mesur cyflawni wrthi'n cael eu datblygu. Mae gwaith yn mynd rhagddo naill ai i gytuno ar ddiffiniad priodol o fesur neu sefydlu proses ar gyfer adrodd ar ddata cadarn. Caiff mesurau a ddaw o fewn y categori hwn eu hamlygu yn y canllawiau hyn dan 'datblygiad' ac mae cyfnod o amser wedi'i roi o ran pryd y bydd y mesur yn barod i adrodd arno (naill ai 2018-19 neu 2019-20). Cyn gynted ag y cytunir ar y diffiniadau a'r dulliau data, caiff y canllawiau adrodd hyn eu diweddarau a chaiff byrddau ac ymddiriedolaethau ieuchyd eu hysbysu.

Mesurau sydd wedi'u dileu

Yn dilyn adolygiad o argraffiad 2017-18 o Fframwaith Cyflawni GIG Cymru, nid yw nifer o fesurau cyflawni wedi'u trosglwyddo i'r ddogfen ar gyfer eleni. Gwnaed y penderfyniad i'w dileu o'r Fframwaith ar ôl cael cyngor gan arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru ac Is-grŵp Mesurau'r GIG. Ymysg y prif resymau dros ddileu'r mesurau cyflawni hyn mae'r canlynol: mae'r targed wedi'i gyflawni fel mater o drefn ac nid oes cyfle i wneud rhagor o welliant; nid yw ansawdd y data yn ddigon cadarn neu; mae'n fesur dyblyg.

Er mwyn gallu cyfeirio'n rhwydd, caiff yr holl ddangosyddion canlyniadau a mesurau perfformiad nad ydynt wedi'u trosglwyddo i rifyn 2018-19 o'r fframwaith eu nodi ar dudalen 65.

Monitro Perfformiad ac Adrodd Arno

Caiff yr holl ddata meintiol eu monitro ac adroddir arnynt yn unol â'r amllder adrodd a amlinellir yn y tablau canllawiau. Adroddir ar y mesurau hyn drwy Lywodraeth Cymru i'r grwpiau canlynol eu hystyried a, lle y bo'n briodol, i gymryd camau adferol:

Cyfarfodydd y GIG a Llywodraeth Cymru:

- Bwrdd Gweithredol Cenedlaethol y GIG
- Ansawdd a Chyflawni*
- Cyd-Dîm Gweithredol*

Cyfarfodydd Llywodraeth Cymru:

- Grŵp Cyflawni Cenedlaethol
- Tîm Cyfarwyddwyr Gweithredol
- Bwrdd Cyflawni Integredig*

Adroddir ar bob mesur sydd â dull mwy ansoddol o fesur y gwasanaethau a ddarperir hefyd i'r grwpiau y soniwyd amdanynt eisoes. Er mwyn sicrhau dull cyson o adrodd ar y mesurau cyflawni hyn, caiff pob cyflwyniad ei adolygu gan yr arweinydd polisi priodol a chaiff sgôr Coch, Melyn, Gwyrdd yn seiliedig ar gyfres o feini prawf y cytunwyd arnynt. Caiff y sgôr hon ei hategu gan adroddiad cryno a fydd yn amlinellu unrhyw feysydd ffocws er mwyn gwella cyflwyniad.

*Mae'r grwpiau hyn yn rhan o fframwaith rheoli perfformiad y GIG.

MESURAU CYFLAWNI GIG CYMRU
2018-19

1. CADW'N IACH: Mae pobl yng Nghymru yn cael y wybodaeth a'r cymorth i reoli eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl eu hunain

| Canlyniad | Mesur Cyflawni | Targed | Ffynhonnell Wybodaeth | Amllder Adrodd | Maes Polisi | Statws | |
|---|----------------|--|----------------------------|--|-------------|--------------------------|-----------|
| Mae fy mhlant yn cael dechrau iach mewn bywyd | 1 | O'r merched a gafodd eu hasesiad cychwynnol ac a roddodd enedigaeth o fewn yr un bwrdd iechyd, canran y merched beichiog a roddodd y gorau i smygu pan oeddent yn feichiog (erbyn 36-38 wythnos o feichiogrwydd) | Gwelliant blynyddol | Set Ddata Dangosydd Mamolaeth (Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru) | Blynyddol | Iechyd y Cyhoedd | Diwygiwyd |
| | 2 | Canran y plant sydd wedi cael tri dos o'r brechlyn '6 mewn 1' chwefalent erbyn iddynt gael eu pen-blwydd yn 1 oed | 95% | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Chwarterol | Iechyd y Cyhoedd | Diwygiwyd |
| | 3 | Canran y plant sydd wedi cael dau ddos o'r brechlyn MMR erbyn iddynt gael eu pen-blwydd yn 5 oed | 95% | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Chwarterol | Iechyd y Cyhoedd | |
| | 4 | Canran y plant sy'n 10 diwrnod oed o fewn y cyfnod adrodd sydd wedi manteisio ar elfen cyswllt ymwelydd iechyd 10-14 diwrnod o Raglen Plant Iach Cymru | Tueddiad gwella 4 chwarter | Cronfa Ddata Iechyd Plant Cymunedol Cymru | Chwarterol | Cyflyrau Iechyd Difrifol | |
| Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud y pethau i gadw fy hun yn iach | 5 | Cyfraddau manteisio ar y brechiad fflw ymysg: pobl 65 oed a hŷn Pobl dan 65 oed mewn grwpiau risg Merched beichiog Gweithwyr gofal iechyd | 75% 55% 75% 60% | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Blynyddol | Iechyd y Cyhoedd | Diwygiwyd |

| Canlyniad | Mesur Cyflawni | | Targed | Ffynhonnell Wybodaeth | Amllder Adrodd | Maes Polisi | Statws |
|--|----------------|--|------------------------|---|----------------|------------------|--------|
| Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud y pethau i gadw fy hun yn iach | 6 | Canran y smygwyr sy'n oedolion sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu | Targed blynyddol o 5% | Casgliad o Ddata Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Smygu (Llywodraeth Cymru) | Chwarterol | Iechyd y Cyhoedd | |
| | 7 | Canran y smygwyr hynny sy'n cael dilysiad carbon monocsid ar ôl rhoi'r gorau iddi ers 4 wythnos | Targed blynyddol o 40% | Casgliad o Ddata Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Smygu (Llywodraeth Cymru) | Chwarterol | Iechyd y Cyhoedd | |
| Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy iechyd a'm lles | 8 | Canran y bobl ag anableddau dysgu sy'n cael archwiliad iechyd blynyddol | 75% | Casgliad Gwasanaethau Ychwanegol Uniongyrchol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Blynyddol | Nyrsio | Newydd |

2. GOFAL DIOGEL: Caiff pobl yng Nghymru eu hamddiffyn rhag niwed a chymorth i amddiffyn eu hunain rhag niwed hysbys

| Canlyniad | Mesur Cyflawni | | Targed | Ffynhonnell Wybodaeth | Amllder Adrodd | Maes Polisi | Statws |
|--|----------------|--|------------------------|--|----------------------|---|-----------|
| Rwy'n cael cymorth i amddiffyn fy iechyd fy hun a'm teulu | 9 | Cydymffurfiaeth ganrannol ar gyfer staff a benodir i rolau newydd lle mae angen cynnal archwiliad o restr waharddedig plant | Gwelliant dros 6 mis | Ffurflen Monitro'r broses o Ddiogelu Oedolion a Phlant (Llywodraeth Cymru) | Ddwywaith y flwyddyn | Nyrsio | Diwygiwyd |
| | 10 | Cydymffurfiaeth ganrannol ar gyfer staff a benodir i rolau newydd lle mae angen cynnal archwiliad o restr waharddedig oedolion | Gwelliant dros 6 mis | Ffurflen Monitro'r broses o Ddiogelu Oedolion a Phlant (Llywodraeth Cymru) | Ddwywaith y flwyddyn | Nyrsio | Diwygiwyd |
| | 11 | Nifer yr achosion o dderbyn cleifion i'r ysbyty lle ceir unrhyw sôn am hunan-niweidio bwriadol ar gyfer plant a phobl ifanc (10-24 oed) fesul 1,000 o'r boblogaeth. | Gostyngiad blynyddol | Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru | Blynyddol | Iechyd Meddwl, Grwpiau sy'n Agored i Niwed a Throseddwr | Diwygiwyd |
| Rwy'n ddiogel a chaf fy amddiffyn rhag niwed drwy ofal, triniaeth a chymorth o ansawdd uchel | 12 | Marwolaethau y gellid eu hosgoi fesul 100,000 o'r boblogaeth safonedig Ewropeaidd | Gostyngiad blynyddol | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Blynyddol | Ansawdd Gofal Iechyd | Diwygiwyd |
| | 13 | Canran y cleifion mewnol a gafodd brawf sgrinio sepsis cadarnhaol sydd wedi cael pob elfen o'r bwndel chwe cham sepsis ar gyfer yr awr gyntaf o fewn awr i gael y prawf sgrinio cadarnhaol | Tueddiad gwella 12 mis | Ffurflen Monitro Bwndel Chwe Cham Sepsis (Llywodraeth Cymru) | Misol | Ansawdd Gofal Iechyd | |

| Canlyniad | Mesur Cyflawni | Targed | Ffynhonnell Wybodaeth | Amllder Adrodd | Maes Polisi | Statws | |
|--|----------------|---|---------------------------------|---|-------------|----------------------|-----------|
| Rwy'n ddiogel a chaf fy amddiffyn rhag niwed drwy ofal, triniaeth a chymorth o ansawdd uchel | 14 | Canran y cleifion a aeth i'r Adran Achoson Brys ar ôl cael prawf sgrinio sepsis cadarnhaol sydd wedi cael pob elfen o'r bwndel chwe cham sepsis ar gyfer yr awr gyntaf o fewn awr i gael prawf sgrinio cadarnhaol | Tueddiad gwella 12 mis | Ffurflen Monitro Bwndel Chwe Cham Sepsis (Llywodraeth Cymru) | Misol | Ansawdd Gofal Iechyd | |
| | 15 | Nifer yr achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty y gellid bod wedi eu hatal | Tueddiad gostwng 4 chwarter | Ffurflen Diogelu Oedolion a Monitro Plant (Llywodraeth Cymru) | Chwarterol | Ansawdd Gofal Iechyd | |
| | 16 | Cyfanswm yr eitemau gwrthlidiol fesul 1,000 STAR-PU (uned ragnodi grŵp therapiwtig penodol sy'n gysylltiedig ag oedran) | Tueddiad gostwng 4 chwarter | Canolfan Therapiwtig a Thocsicoleg Cymru Gyfan | Chwarterol | Fferyllol a Rhagnodi | Diwygiwyd |
| | 17 | Eitemau fluroquinolone, cephalosporin, clinamycin a co-amoxiclav fel canran o gyfanswm yr eitemau gwrthlidiol a ddosberthir yn y gymuned | Gwelliant o chwarter i chwarter | Canolfan Therapiwtig a Thocsicoleg Cymru Gyfan | Chwarterol | Fferyllol a Rhagnodi | Diwygiwyd |
| | 18 | Cyfradd gronnol o achosion o facteremia <i>E.coli</i> wedi'u cadarnhau mewn labordy fesul 100,000 o'r boblogaeth | I'w gadarnhau | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Misol | Nyrsio | Diwygiwyd |
| | 19 | Cyfradd gronnol o achosion o facteremia <i>S.aureus</i> wedi'u cadarnhau mewn labordy (MRSA ac MSSA) fesul 100,000 o'r boblogaeth | I'w gadarnhau | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Misol | Nyrsio | Diwygiwyd |

| Canlyniad | Mesur Cyflawni | | Targed | Ffynhonnell Wybodaeth | Amllder Adrodd | Maes Polisi | Statws |
|--|----------------|--|-----------------------------|---|----------------|----------------------|-----------|
| Rwy'n ddiogel a chaf fy amddiffyn rhag niwed drwy ofal, triniaeth a chymorth o ansawdd uchel | 20 | Cyfradd gronol o achosion o <i>C.difficile</i> wedi'u cadarnhau mewn labordy fesul 100,000 o'r boblogaeth | I'w gadarnhau | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Misol | Nyrsio | Diwygiwyd |
| | 21 | Swm dyddiol cyfartalog o gyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd fesul 1,000 STAR-PU (uned ragnodi grŵp therapiwtig penodol sy'n gysylltiedig ag oedran) | Tueddiad gostwng 4 chwarter | Canolfan Therapiwtig a Thocsicoleg Cymru Gyfan | Chwarterol | Fferyllol a Rhagnodi | Diwygiwyd |
| | 22 | Nifer y Rhybuddion a Hysbysiadau gan Datrysiadau Diogelwch Cleifion Cymru nad oeddent wedi'u sicrhau o fewn y raddfa amser y cytunwyd arni | 0 | Diogelwch Cleifion Cymru | Chwarterol | Ansawdd Gofal Iechyd | Diwygiwyd |
| | 23 | O'r digwyddiadau difrifol y disgwyliwyd eu sicrhau, y ganran a sicrhawyd o fewn y raddfa amser y cytunwyd arni | 90% | Casgliad o Ddata Adrodd Digwyddiadau Difrifol (Llywodraeth Cymru) | Misol | Ansawdd Gofal Iechyd | Diwygiwyd |
| | 24 | Nifer y digwyddiadau byth newydd | 0 | Casgliad o Ddata Adrodd Digwyddiadau Difrifol (Llywodraeth Cymru) | Misol | Ansawdd Gofal Iechyd | Diwygiwyd |

| Canlyniad | Mesur Cyflawni | | Targed | Ffynhonnell Wybodaeth | Amllder Adrodd | Maes Polisi | Statws |
|--|----------------|--|-------------------------|---|----------------|-------------|---------------------------|
| Rwy'n ddiogel a chaf fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod | 25 | Maeth a hydradiad | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Nyrsio | Datblygu ar gyfer 2019-20 |
| | 26 | Nifer yr wlsrau pwyso gradd 3, 4 a rhai na ellir eu graddio a gafwyd mewn gofal iechyd (mewn ysbyty ac yn y gymuned) a gafodd eu hadrodd fel digwyddiadau difrifol | Tueddiad gostwng 12 mis | Casgliad o Ddata Adrodd Digwyddiadau Difrifol (Llywodraeth Cymru) | Misol | Nyrsio | Diwygiwyd |
| | 27 | Nifer y gwallau gweinyddu, dosbarthu a rhagnodi meddyginiaeth a gafodd eu hadrodd fel digwyddiadau difrifol | Tueddiad gostwng 12 mis | Casgliad o Ddata Adrodd Digwyddiadau Difrifol (Llywodraeth Cymru) | Misol | Nyrsio | Diwygiwyd |
| | 28 | Nifer y cwympiadau ymysg cleifion a nodwyd fel digwyddiadau difrifol | Tueddiad gostwng 12 mis | Casgliad o Ddata Adrodd Digwyddiadau Difrifol (Llywodraeth Cymru) | Misol | Nyrsio | Diwygiwyd |
| | 29 | Gofal ymataliaeth | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Nyrsio | Datblygu ar gyfer 2019-20 |

3. GOFAL EFFEITHIOL: Mae pobl yng Nghymru yn cael y gofal a chymorth cywir mor lleol â phosibl a chânt eu galluogi i gyfrannu at sicrhau bod y gofal hwnnw yn llwyddiannus

| Canlyniad | Mesur Cyflawni | Targed | Ffynhonnell Wybodaeth | Amlder Adrodd | Maes Polisi | Statws | |
|--|----------------|--|---|--|-------------|---|-----------|
| Caiff gofal iechyd a chymorth eu darparu yn fy nghartref neu mor agos â phosibl at fy nghartref | 30 | Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal iechyd meddwl gan y bwrdd iechyd (cyfnod treigl o 12 mis) | Gostyngiad o ddim llai na 10% o gyfanswm oedi'r bwrdd iechyd ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol | Cronfa Ddata Oedi wrth Drosglwyddo Gofal | Misol | Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio | Diwygiwyd |
| | 31 | Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal nad yw'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gan y bwrdd iechyd (cyfnod treigl o 12 mis) | Gostyngiad o ddim llai na 5% o gyfanswm oedi'r bwrdd iechyd ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol | Cronfa Ddata Oedi wrth Drosglwyddo Gofal | Misol | Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio | Diwygiwyd |
| Mae ymyriadau er mwyn gwella fy iechyd yn seiliedig ar ymchwil ac arfer gorau amserol o ansawdd da | 32 | Canran yr adolygiadau marwolaethau cyffredinol a gynhaliwyd o fewn 28 diwrnod i farwolaeth | 95% | Casgliad o Ddata Adolygiad o Farwolaethau Nodiadau Achos (Llywodraeth Cymru) | Misol | Ansawdd Gofal Iechyd | |
| | 33 | Cyfradd marwolaethau ysbytai crai (74 oed neu iau) | Tueddiad gostwng 12 mis | Systemau Gwybodaeth Gofal Iechyd Clinigol | Misol | Ansawdd Gofal Iechyd | |

| Canlyniad | Mesur Cyflawni | | Targed | Ffynhonnell Wybodaeth | Amllder Adrodd | Maes Polisi | Statws |
|--|----------------|---|---------------------|--|-------------------|-----------------------------------|-----------|
| Mae ymyriadau er mwyn gwella fy iechyd yn seiliedig ar ymchwil ac arfer gorau amserol o ansawdd da | 34 | Cydymffurfiaeth ganrannol ag elfen hyfforddi Llywodraethu Gwybodaeth (Cymru) lefel 1 a gwblhawyd o'r Fframwaith Sgiliau Craidd a Hyfforddiant | 85% | Cofnod Staff Electronig | Misol | Safonau a Llywodraethu Gwybodaeth | Newydd |
| | 35 | Canran y cyfnodau gofal wedi'u codio'n glinigol o fewn un mis adrodd ar ôl dyddiad rhyddhau olaf y cyfnod gofal | 95% | Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru | Misol | Safonau a Llywodraethu Gwybodaeth | Diwygiwyd |
| | 36 | Canran y cywirdeb codio clinigol a gyflawnwyd yn rhaglen archwilio cywirdeb codio clinigol cenedlaethol Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru | Gwelliant blynyddol | Adroddiadau Archwilio Codio Clinigol Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru | Blynyddol | Safonau a Llywodraethu Gwybodaeth | |
| | 37 | Rhaid i'r holl feddyginiaethau newydd a argymhellir gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan a NICE, yn cynnwys argymhellion dros dro ar gyfer meddyginiaethau canser, fod ar gael lle y bo'n briodol yn glinigol, heb fod yn hwyrach na dau fis ar ôl cyhoeddi Penderfyniad Arfarnu Terfynol NICE ac argymhelliad arfarnu Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan | 100% | Canolfan Therapiwtig a Thocsicoleg Cymru Gyfan System MEdusa Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru | Chwarterol | Fferyllol a Rhagnodi | Diwygiwyd |

| Canlyniad | Mesur Cyflawni | | Targed | Ffynhonnell Wybodaeth | Amllder Adrodd | Maes Polisi | Statws |
|--|----------------|--|---------------------------|------------------------------|-------------------|--------------------------------------|-----------|
| Mae ymyriadau er mwyn gwella fy iechyd yn seiliedig ar ymchwil ac arfer gorau amserol o ansawdd da | 38 | Nifer yr astudiaethau portffolio ymchwil glinigol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru | gwelliant blynyddol o 10% | Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru | Chwarterol | Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | Diwygiwyd |
| | 39 | Nifer yr astudiaethau a noddir yn fasnachol gan Ymchwil Iechyd a Gofal | gwelliant blynyddol o 5% | Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru | Chwarterol | Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | Diwygiwyd |
| 79 | <p>Adroddiad ansoddol yn nodi'r cyflawniadau a wnaed tuag at weithredu'r safon Cymru gyfan ar gyfer dulliau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch i bobl sydd â nam ar y synhwyrau</p> | <p>Diwygiad i'r Templed Adrodd: Mae'r canlynol wedi'i ychwanegu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Maes newydd wedi'i gynnwys yn yr adrannau 'Gofal Sylfaenol a Chymunedol' a 'Gofal Eilaidd' yn canolbwyntio ar weithredu'r Safonau Gwybodaeth Hygyrch. |

Gofal Unigol

| | | |
|----|---|--|
| 80 | Adroddiad ansoddol yn nodi tystiolaeth bod camau gweithredu'r iaith Gymraeg yn cael eu rhoi ar waith fel y'u diffiniwyd yn Mwy na Geiriau | <p>Diwygiad i'r Templed Adrodd: Mae'r canlynol wedi'i ychwanegu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r adran Dewis Cleifion wedi'i ddiwygio i Dewis a Phrofiad Cleifion. • Mae dau faes newydd wedi'u cynnwys yn Dewis a Phrofiad Cleifion, sy'n canolbwyntio ar; cyfleu i staff bwysigrwydd gwneud Cynnig Gweithredol; prif ffrydio profiadau gwasanaethau iaith Gymraeg. • Mae'r maes presennol o dan y pennawd Dewis a Phrofiad Cleifion wedi'i ddiwygio i ganolbwyntio ar y Cynnig Gweithredol mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. |
|----|---|--|

Ein Staff a'n Hadnoddau

| | | |
|----|--|---|
| 90 | Faint o feddyginiaethau biodebyg a ragnodir fel canran o gyfanswm y cynhyrchion 'cyfeirio' ynghyd â meddyginiaethau biodebyg | Targed: Wedi newid yn ystod 2017/18. Nid oedd y targed blaenorol a gyhoeddwyd wedi'i gadarnhau. Y targed presennol yw gwelliant o chwarter i chwarter. |
| 91 | Nifer y triniaethau nad ydynt yn cydymffurfio â chanllawiau 'Peidiwch â Gwneud' dethol NICE ar gyfer triniaethau ag effeithiolrwydd cyfyngedig (a ddewiswyd o restr y cytunwyd arni gyda'r Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio) | Meini prawf: Roedd y mesur blaenorol yn canolbwyntio ar weithdrefnau clustiau, trwyn a gwddf penodol ac offthalmoleg. Mae'r rhestr hon wedi'i diwygio ar gyfer 2018/19 i gynnwys triniaethau dermatoleg penodol. |

TEMPLEDI ADRODD

2018-19

Diogelu oedolion a phlant: Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

| | |
|-------------------------------------|----------------------|
| Amserlen Adrodd | Ddwywaith y flwyddyn |
| Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd | |
| Dyddiad yr Adroddiad | |
| Cwblhawyd gan | |
| Cyfeiriad e-bost | |

Un o egwyddorion pwysicaf diogelu yw bod yn rhaid i sefydliadau sicrhau eu bod yn gwneud popeth posibl i amddiffyn oedolion a phlant rhag camdriniaeth ac esgeulustod. O ganlyniad, dylid cynnal archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd* ar staff y GIG os byddant yn dod i gysylltiad â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r ffurflen ddata hon yn gymwys i holl leoliadau gofal iechyd y GIG - gofal sylfaenol, gofal eilaidd a gofal cymunedol. Caiff y data eu cyrchu o'r Cofnod Staff Electronig.

Amserlen Adrodd: Adroddiad i gael ei lunio ddwywaith y flwyddyn. Dylid cyflwyno'r ffurflen hon ar 21 Hydref (ar gyfer data a gasglwyd ar 30 Medi) a 21 Ebrill (ar gyfer data a gasglwyd ar 31 Mawrth).

Dylid dychwelyd y ffurflen i: hss.performance@gov.wales

Caffael Data: 1 Ebrill i 30 Medi

| Math o Archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Nifer y rolau a benodir yn ystod y cyfnod lle mae Archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ofynnol yn ôl Rôl y Swydd yn y Cofnod Staff Electronig** | Nifer y staff a benodir** yn ystod y cyfnod lle mae archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i dderbyn | Canran y Gydymffurfiaeth | Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn effeithio ar gyflawniad neu adrodd |
|--|---|--|---------------------------------|--|
| Gwiriad Safonol | | | | |
| Gwiriad Manylach | | | | |
| Rhestr Waharddedig Plant | | | | |
| Rhestr Waharddedig Oedolion | | | | |

*Mae'n ofyniad cyfreithlon ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n wynebu risg i gael Archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service/about>

** Dylid llunio adroddiadau ar Archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o staff a benodir i rôl newydd drwy'r broses recriwtio ac a gyflogir gyda'r Cofnod Staff Electronig yn ystod y cyfnod adrodd. **Nid** yw'n cynnwys staff presennol sydd wedi cael archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu staff y mae angen iddynt gael ailarchwiliad. Mae'r angen am ailarchwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei egluro ac nid yw'n ofyniad ar y ffurflen hon ar hyn o bryd.

Cydymffurfio â bwndel chwe cham sepsis o fewn 1 awr

| | |
|-----------------------------|--------------|
| Amserlen Adrodd | Misol |
| Bwrdd Iechyd | |
| Dyddiad yr Adroddiad | |
| Cwblhawyd gan | |
| Rhif Cyswllt | |
| Cyfeiriad e-bost | |

Templed Adrodd: Canran y cleifion sydd wedi cael prawf sgrinio cadarnhaol ar gyfer sepsis yn yr adran i gleifion mewnol ac yn yr adran achosion brys a damweiniau sydd wedi cael 6 elfen y bwndel chwe cham sepsis o fewn 1 awr.

Dyddiad Cyflwyno: 10 diwrnod gwaith ar ôl diwedd y mis neu'r 14eg o'r mis canlynol.

Dylid dychwelyd y ffurflen i: hss.performance@gov.wales

Noder: Mae hwn yn fesur gwelliant heb unrhyw darged. Caiff cyflawniad ei fesur yn unol â gwelliant misol yn erbyn perfformiad pob bwrdd iechyd unigol. Mae'n amhriodol cymharu cyflawniad rhwng byrddau iechyd nes y bydd system genedlaethol wedi'i sefydlu'n llawn.

| Cleifion mewnol (heb gynnwys cleifion sydd mewn gwelyau gofal critigol ar hyn o bryd) | Ebr 2018 | Mai 2018 | Meh 2018 | Gor 2018 | Awst 2018 | Medi 2018 | Hyd 2018 | Tach 2018 | Rhag 2018 | Ion 2019 | Chwe 2019 | Maw 2019 | Cyf |
|---|----------|----------|----------|----------|-----------|-----------|----------|-----------|-----------|----------|-----------|----------|-----|
| Nifer y cleifion y nodwyd eu bod wedi cael prawf sgrinio cadarnhaol ar gyfer sepsis y mae angen ymateb newydd arnynt o fewn cyfnod o 24 awr | | | | | | | | | | | | | |
| Nifer y cleifion a gafodd chwe elfen y bwndel chwe cham sepsis o fewn 1 awr | | | | | | | | | | | | | |
| % cydymffurfiaeth | | | | | | | | | | | | | |
| Nifer y cleifion a gafodd prawf sgrinio cadarnhaol ar gyfer sepsis ond na chawsant ddiagnosis o sepsis | | | | | | | | | | | | | |
| Achosion brys | Ebr 2017 | Mai 2017 | Meh 2017 | Gor 2017 | Awst 2017 | Medi 2017 | Hyd 2017 | Tach 2017 | Rhag 2017 | Ion 2018 | Chwe 2018 | Maw 2018 | Cyf |
| Nifer y cleifion y nodwyd eu bod wedi cael prawf sgrinio cadarnhaol ar gyfer sepsis y mae angen ymateb newydd arnynt o fewn cyfnod o 24 awr | | | | | | | | | | | | | |
| Nifer y cleifion a gafodd chwe elfen y bwndel chwe cham sepsis o fewn 1 awr | | | | | | | | | | | | | |
| % cydymffurfiaeth | | | | | | | | | | | | | |
| Nifer y cleifion a gafodd prawf sgrinio cadarnhaol ar gyfer sepsis ond na chawsant ddiagnosis o sepsis | | | | | | | | | | | | | |

Thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty

| | |
|-----------------------------|--------------|
| Amserlen Adrodd | Misol |
| Bwrdd Iechyd | |
| Dyddiad yr Adroddiad | |

| | |
|-------------------------|--|
| Cwblhawyd gan | |
| Rhif Cyswllt | |
| Cyfeiriad e-bost | |

Nifer yr achosion o thrombo-emboldd gwythiennol sy'n gysylltiedig â chyfnod yn yr ysbyty y gallant fod yn achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty fesul chwarter. Mae angen i'r achosion hyn gael eu dilysu er mwyn penderfynu a ydynt yn achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty.

Templed Adrodd: Cyfanswm yr achosion yr amheuwyd eu bod yn achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty bob mis calendr.

Dyddiad Cyflwyno: 10 diwrnod gwaith ar ôl diwedd y mis neu'r 14eg o'r mis canlynol.

Dylid dychwelyd y ffurflen i: hss.performance@gov.wales

| Ebr 2018 | Mai 2018 | Meh 2018 | Gor 2018 | Awst 2018 | Medi 2018 | Hyd 2018 | Tach 2018 | Rhag 2018 | Ion 2019 | Chwe 2019 | Maw 2019 | Cyf |
|----------------------------|----------|----------|----------------------------|-----------|-----------|----------------------------|-----------|-----------|----------------------------|-----------|----------|-----|
| | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Chwarter 1 | | | Cyfanswm Chwarter 2 | | | Cyfanswm Chwarter 3 | | | Cyfanswm Chwarter 4 | | | |

Thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty

| | |
|----------------------|------------|
| Amserlen Adrodd | Chwarterol |
| Bwrdd Iechyd | |
| Dyddiad yr Adroddiad | |

| | |
|------------------|--|
| Cwblhawyd gan | |
| Rhif Cyswllt | |
| Cyfeiriad e-bost | |

Templed Adrodd:

- > Nifer y Dadansoddiadau o Wraidd y Broblem a gwblhawyd (yn seiliedig ar nifer yr achosion yr amheuwyd eu bod yn achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty yn ystod y chwarter).
- > Nifer wirioneddol yr achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty y gellid bod wedi'u hatal (a bennwyd o'r Dadansoddiad o Wraidd y Broblem).
- > Nifer yr achosion na chredir eu bod yn achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty.
- > Crynodeb o'r hyn a ddysgwyd a'r camau gweithredu.

Dyddiadau Cyflwyno:

- Chwarter 1: 14 Hydref (Data ar gyfer mis Ebrill i fis Mehefin)
- Chwarter 2: 14 Ionawr (Data ar gyfer mis Gorffennaf i fis Medi)
- Chwarter 3: 14 Ebrill (Data ar gyfer mis Hydref i fis Rhagfyr)
- Chwarter 4: 14 Gorffennaf (Data ar gyfer mis Ionawr i fis Mawrth)

Dylid dychwelyd y ffurflen i: hss.performance@gov.wales

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Cyfanswm | |
|--|---------------------------------------|-----|-----|-----|----------|---|
| Nifer yr achosion o thrombo-emoledd gwythiennol sy'n gysylltiedig â chyfnod yn yr ysbyty y gallant fod yn achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty fesul chwarter. Mae angen i'r achosion hyn gael eu dilysu er mwyn penderfynu a ydynt yn achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty (Maes 1) | | | | | | Dylid aiffewnbynnu cywiriadau ôl-weithredol o dan y chwarter perthnasol unwaith y bydd y nodiadau coll wedi'u derbyn a'u harchwilio. Er enghraifft, dylid cyflwyno nodiadau coll o unrhyw chwarter ar eich ffurflen nesaf ond gan ddiweddarau yn y golofn berthnasol ar gyfer chwarter y digwyddiad. Ni ddylid cynnwys unrhyw nodiadau nas canfyddir o fewn cyfnod o 6 mis yn yr adroddiad. |
| Nifer y nodiadau coll (methu â dilysu cofnodion) * (Maes 2) | | | | | | |
| Nifer y Dadansoddiadau Gwraidd y Broblem a gwblhawyd (Maes 3) | | | | | | |
| Nifer wirioneddol yr achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty y gellid bod wedi eu hatal (Maes 4) | | | | | | |
| Nifer yr achosion y credwyd nad oeddent yn achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty neu'n achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty y gellid bod wedi eu hatal (Maes 5 a+b) | | | | | | |
| Crynodeb o'r wers a ddysgwyd er mwyn gwella cyflawniad | Camau unioni y cytunwyd arnynt | | | | | |
| | | | | | | |

Tystiolaeth o sut mae sefydliadau'r GIG yn ymateb i brofiad defnyddwyr gwasanaethau er mwyn gwella gwasanaethau

| | |
|-----------------------------------|--|
| Sefydliad y GIG | |
| Dyddiad yr Adroddiad | |
| Paratowyd yr Adroddiad gan | |

Mae [Fframwaith y GIG ar gyfer Sicrhau profiad Defnyddwyr Gwasanaethau](#) yn egluro pwysigrwydd cael adborth ynghylch profiad defnyddwyr gwasanaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd gan ddefnyddio'r model pedwar cwadrant (amser real, ôl-weithredol, rhagweithiol/ymatebol a chydbwysol). Mae'n amlinellu tri pharth er mwyn cefnogi'r defnydd o ddulliau adborth a'r broses o'u dylunio a bwriedir iddo arwain ac ategu strategaethau adborth defnyddwyr gwasanaethau (cleifion) yn holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Mae'n ofynnol i sefydliadau'r GIG roi tystiolaeth bod adborth ynghylch defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei gasglu ym mhob lleoliad gofal ac y gweithredir arno (fel sy'n briodol).

Amserlen Adrodd: Dylid adrodd ar dystiolaeth o sut mae sefydliadau'r GIG yn ymateb i adborth ynghylch profiad defnyddwyr gwasanaethau er mwyn gwella/aiddylunio eu gwasanaethau bob blwyddyn. Dylid cyflwyno'r ffurflen hon ar 30 Medi er mwyn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.

| | Beth mae eich sefydliad wedi'i wneud i annog adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ar eu profiad o'ch gwasanaethau? | Beth mae eich sefydliad wedi'i wneud i ymateb i adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau er mwyn gwella/aiddylunio eich gwasanaethau? | Sut yr ymgysylltwyd â defnyddwyr gwasanaethau er mwyn llywio eich Cynllun Tymor Canolig Integredig? |
|---|---|--|--|
| Gwasanaethau Atal (er mwyn diogelu a gwella iechyd). Mae hyn yn cynnwys Gwasanaethau Sgrinio | | | |
| Gofal Sylfaenol | | | |
| Gofal wedi'i Gynllunio | | | |
| Gofal Brys a Gofal heb ei Drefnu | | | |
| Gofal Cymunedol a Chludiant i Gleifion | | | |

Dylid anfon ffurflenni wedi'u cwblhau i: hss.performance@gov.wales

Hyfforddiant ar ddementia

| | |
|-------------------------------------|--|
| Amserlen Adrodd | |
| Bwrdd/Ymddiriedolaeth lechyd | |
| Dyddiad yr Adroddiad | |
| Cwblhawyd gan | |
| Rhif Cyswllt | |
| E-bost | |

Templed Adrodd: Fel yr amlinellir yn 'Gwaith Da: fframwaith dysgu a datblygu dementia i Gymru', mae angen i bob aelod o staff sy'n gweithio i'r GIG yng Nghymru gael ymwybyddiaeth gadarn o ddementia a materion cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod eu dull gweithredu yn cefnogi pobl sydd â dementia a gofalwyr i fyw'n dda. Mae'r templed adrodd hwn yn monitro canran y staff cyflogedig sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar ddementia ar lefel wybodus a'r camau gweithredu a roddir ar waith er mwyn sicrhau bod grwpiau o staff priodol yn cael hyfforddiant ar ddementia ar lefel fedrus a dylanwadol. Dylid cyrchu'r data o'r Cofnod Staff Electronig. Targed: Ar gyfer 2018-19, bydd 85% o'r staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd wedi cwblhau'r lefel briodol o hyfforddiant ar ddementia/addysg.

Amserlen Adrodd: Dylid cyflwyno adroddiad ar hyfforddiant ar ddementia ddwywaith y flwyddyn. Dylid cyflwyno'r ffurflen hon ar 21 Hydref (ar gyfer data a gasglwyd ar 20 Medi) ac ar 21 Ebrill (ar gyfer data a gasglwyd ar 31 Mawrth).
Dylid dychwelyd y ffurflen i: hss.performance@gov.wales

| Data ar: | Targed | Cyfanswm y staff ar y Cofnod Staff Electronig | Cyfanswm y staff ar y Cofnod Staff Electronig sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar ddementia ar lefel wybodus | Canran y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar ddementia ar lefel wybodus | Y wybodaeth ddiweddaraf ar faterion yn effeithio ar gyflawniad |
|----------------|--------|---|--|---|--|
| 30 Medi 2018 | 85% | | | | |
| 31 Mawrth 2019 | 85% | | | | |

Pa gamau gweithredu a roddwyd ar waith er mwyn nodi grwpiau o staff y mae angen hyfforddiant ar ddementia arnynt ar lefel fedrus a/neu ddylanwadol*? Beth a roddwyd ar waith er mwyn cyflawni a chofnodi hyfforddiant ar gyfer y grwpiau hyn?

| |
|--|
| |
|--|

*Ceir rhagor o wybodaeth am y grwpiau staff y mae'n ofynnol iddynt gwblhau hyfforddiant ar ddementia ar lefel fedrus a/neu ddylanwadol a'r pynciau hyfforddi a gwmpesir yn 'Gwaith Da - fframwaith dysgu a datblygu dementia i Gymru'. <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/gwaith-da-fframwaith-dysgu-a-datblygu-dementia-i-gymru?record-language-choice=en-cy>

Gwella Cydraddoldeb a Chydberthnasau Da

| | |
|-----------------------------------|--|
| Sefydliad y GIG | |
| Dyddiad yr Adroddiad | |
| Paratowyd yr Adroddiad gan | |

Nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yw sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ystyried yn briodol o fewn y sefydliad ac yn dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir ar bob lefel. Er mwyn bodloni gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, rhaid i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd y GIG ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy wella cydraddoldeb a chydberthnasau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn sicrhau y caiff ystyriaethau cydraddoldeb eu cynnwys wrth lunio polisiau ac wrth ddarparu gwasanaethau ac y cânt eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau gwell i bawb.

Amserlen Adrodd: Dylid llunio adroddiad ar y cynnydd yn erbyn cynllun y sefydliad ddwywaith y flwyddyn. 31 Hydref a 30 Ebrill

A oes gan y sefydliad Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith, sy'n nodi sut mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a rhwystrau at fynediad yn gwella canlyniadau iechyd a phrofiadau cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr? A yw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys amcanion cydraddoldeb er mwyn cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol sy'n cwmpasu'r nodweddion gwarchoddedig canlynol: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil (yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd), crefydd neu gred (yn cynnwys diffyg cred), priodas a phartneriaeth sifil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol?

Y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu a roddwyd ar waith yn ystod y flwyddyn weithredol gyfredol er mwyn gwella cydraddoldeb a chydberthnasau da yng ngweithgareddau'r bwrdd iechyd o ddydd i ddydd

| | Camau Gweithredu Allweddol a Gynlluniwyd | Risgiau i Gyflawniad a Chamau Unioni | Beth a gyflawnwyd |
|--|---|---|--------------------------|
| Cynllunio a Rheoli Perfformiad | | | |
| Mae'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn dangos yn glir sut mae sefydliad y GIG yn cyflawni'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb a hawliau dynol a'r trefniadau ar gyfer asesu effaith ar gydraddoldeb. | | | |
| Cymerwyd camau, lle y bo'n bosibl, i gyfateb yr effaith ar gydraddoldeb ac asesiadau o anghenion iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried y 'nodweddion gwarchoddedig' ac yn defnyddio setiau data penodol a gweithgarwch ymgysylltu. | | | |

| | Camau Gweithredu Allweddol a Gynlluniwyd | Risgiau i Gyflawniad a Chamau Unioni | Beth a gyflawnwyd |
|---|---|---|--------------------------|
| Mae'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn nodi sut y caiff asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb eu hymgorffori mewn cynlluniau newid gwasanaethau a'u llywio gan ganfyddiadau o weithredoedd ymgysylltu ac ymgynghori a thystiolaeth arall. | | | |
| Mae'r cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys amcanion mesuradwy clir ar gyfer lleihau anghydraddoldebau iechyd ac maent yn cyfateb i'r blaenoriaethau cydraddoldeb a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. | | | |
| Llywodraethu | | | |
| Mae'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth y GIG yn cael sicrwydd bod prosesau ar waith er mwyn nodi'r effaith ar gydraddoldeb, ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu a bod camau lliniaru wedi'u nodi'n glir. Mae Pwyllgorau neu Is-bwyllgorau yn cadarnhau bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn llywio penderfyniadau a wneir. | | | |
| Mae'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth y GIG yn sicrhau y caiff ystyriaethau cydraddoldeb eu cynnwys yn y broses o gaffael, comisiynu a chontractio gwasanaethau. | | | |

| | Camau Gweithredu Allweddol a Gynlluniwyd | Risgiau i Gyflawniad a Chamau Unioni | Beth a gyflawnwyd |
|--|--|--------------------------------------|-------------------|
| Ansawdd a diogelwch | | | |
| Mae pob rhaglen/cynllun newid gwasanaeth yn cynnwys y canlynol o leiaf: goblygiadau o ran cydraddoldeb, yn cynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol ar gleifion, y cyhoedd a staff a chamau lliniaru er mwyn lleihau unrhyw effaith negyddol a ragwelir. | | | |
| Ceir cysylltiad clir rhwng cydraddoldeb a mentrau ansawdd a chânt eu llywio gan ganfyddiadau'r asesiad o anghenion, y gofrestr risg, a'r heriau a'r blaenoriaethau gwella a nodir yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol. | | | |
| Gweithlu | | | |
| Ceir tystiolaeth bod gwybodaeth am gyflogaeth yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau a chynllunio'r gweithlu. | | | |
| Nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar gydraddoldeb a hawliau dynol 'Fy Nhrin yn Deg' | | | |

Dylid anfon ffurflenni wedi'u cwblhau i: hss.performance@gov.wales

Stategaethau a Chanllawiau Perthnasol

- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru <https://www.equalityhumanrights.com/cy/comisiwn-yng-nghymru>
- Gwneud Penderfyniadau Ariannol Teg: Canllawiau i'r Sawl sy'n Gwneud Penderfyniadau - Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- "A yw Cymru'n Decach?" gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2015
- Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, 2016
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol Diwygiedig Sefydliadau 2016 - 20
- Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru – y GIG/y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol/CLILC 2015 – <http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan>
- Y Canllaw Hanfodol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Trosolwg ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru

Gwella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau Penodol sy'n Agored i Niwed

| | |
|-----------------------------------|--|
| Bwrdd Iechyd | |
| Dyddiad yr Adroddiad | |
| Paratowyd yr Adroddiad gan | |

Disgwylir i Fyrddau Iechyd gael asesiadau a chynlluniau ar waith er mwy nodi a thargedu anghenion iechyd a lles pobl ddigartref a grwpiau sy'n agored i niwed o bob oedran yn yr ardal leol. **Nodir grwpiau sy'n agored i niwed fel a ganlyn: pobl ddigartref, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, sipsiwn a theithwyr, camddefnyddwyr sylweddau, mudwyr o'r UE sy'n ddigartref neu'n byw mewn amgylchiadau anniogel.**

Amserlen Adrodd: Dylid llunio adroddiad ar gynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r Bwrdd Iechyd ddwywaith y flwyddyn. Dylid cyflwyno'r ffurflen hon ar 31 Hydref a 30 Ebrill er mwyn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.

Dylid anfon ffurflenni wedi'u cwblhau i: hss.performance@gov.wales

| Safonau | Camau Gweithredu Allweddol a Gyflawnwyd mis Ebrill i fis Medi 2018 | Camau Gweithredu Allweddol a Gyflawnwyd Mis Hydref 2018 i fis Mawrth 2019 | Risgiau i Gyflawniad | Camau Unioni |
|--|---|--|-----------------------------|---------------------|
| 1. Arweinyddiaeth Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos arweinyddiaeth gan ysgogi canlyniadau iechyd gwell i bobl ddigartref a grwpiau sy'n agored i niwed. | | | | |
| 2. Cydweithio Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, defnyddwyr gwasanaethau, y trydydd sector a rhanddeiliaid er mwyn gwella iechyd grwpiau sy'n agored i niwed a chyfrannu at y broses o atal digartrefedd. | | | | |
| 3. Gwybodaeth am Iechyd Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, defnyddwyr gwasanaethau, y trydydd sector a rhanddeiliaid ac mae'n dangos dealltwriaeth o broffil ac anghenion iechyd pobl ddigartref a grwpiau sy'n agored i niwed yn eu hardal. | | | | |

| Safonau | Camau Gweithredu Allweddol a Gyflawnwyd mis Ebrill i fis Medi 2018 | Camau Gweithredu Allweddol a Gyflawnwyd Mis Hydref 2018 i fis Mawrth 2019 | Risgiau i Gyflawniad | Camau Unioni |
|--|---|--|----------------------|--------------|
| <p>4. Mynediad at Ofal Iechyd Caiff pobl ddigartref a grwpiau sy'n agored i niwed fynediad teg at amrywiaeth lawn o wasanaethau iechyd ac arbenigol.</p> | | | | |
| <p>5. Cynllun Gweithredu Iechyd i Bobl Ddigartref a Grwpiau sy'n Agored i Niwed Mae'r Bwrdd Iechyd yn arwain y broses o ddatblygu, gweithredu a monitro'r Cynllun Gweithredu (fel elfen o Gynllun Integredig Sengl a strategaethau comisiynu rhanbarthol) mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, defnyddwyr gwasanaethau, y trydydd sector a rhanddeiliaid eraill.</p> | | | | |

Dylech sicrhau bod y diweddariad a roddir gennych yn ystyried pob grŵp sy'n agored i niwed. Ar gyfer sipiwn a theithwyr, wrth roi'r diweddariad, dylid ystyried y mesurau canlyniadau fel y nodir yn 'Teithio at Iechyd Gwell' (bydd hyn yn sicrhau na chaiff diweddariad arall ei gomisiynu).

Mae Teithio at Iechyd Gwell ar gael yn: <http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/travelling/?lang=cy>

Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch

| | |
|-----------------------------------|--|
| Sefydliad y GIG | |
| Dyddiad yr Adroddiad | |
| Paratowyd yr Adroddiad gan | |

Mae'r [Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrâu a Chyfathrebu â Hwyl](#) yn nodi'r safonau o ran darparu gwasanaethau y dylai pobl â nam ar eu synhwyrâu eu disgwyl pan fyddant yn manteisio ar ofal iechyd. Mae'r safonau hyn yn gymwys i oedolion, pobl ifanc a phlant. Mae gofynion y Safon Gwybodaeth Hygyrch yn gweithredu ochr yn ochr â'r 'Safonau' fel ffactor galluogi i'w rhoi ar waith.

Amserlen Adrodd: Dylid llunio adroddiad ar y cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r sefydliad ar gyfer y flwyddyn weithredol bresennol ddwywaith y flwyddyn. Dylid cyflwyno'r ffurflen hon ar 31 Hydref a 30 Ebrill.

Dylid dychwelyd y ffurflen wedi'i chwblhau i: hss.performance@gov.wales

A oes gan y sefydliad gynllun gweithredu ar waith er mwyn rhoi'r Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrâu a Chyfathrebu â Hwyl ar waith?

Y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu i roi'r Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrâu a Chyfathrebu â hwyl ar waith:

| Asesiadau o Anghenion | Camau Gweithredu Allweddol a Gyflawnwyd yn ystod 2018-19 | Risgiau i Gyflawniad | Camau Unioni |
|---|---|-----------------------------|---------------------|
| Dylid asesu pob ardal i'r cyhoedd ac i gleifion er mwyn nodi anghenion pobl â nam ar eu synhwyrâu | | | |
| Dylid asesu'r holl wybodaeth i'r cyhoedd a gynhyrchir gan sefydliad i sicrhau ei bod yn hygyrch cyn ei chyhoeddi. | | | |

| Safonau Darparu Gwasanaethau | Camau Gweithredu Allweddol a Gyflawnwyd yn ystod 2018-19 | Risgiau i Gyflawniad | Camau Unioni |
|--|---|-----------------------------|---------------------|
| Hybu lechyd (Hyrwyddo Profion Sgrinio, SSW, Brechiadau Ffliw, Naw Mis a Mwy). Ymysg y meysydd blaenoriaeth mae: | | | |
| Codi ymwybyddiaeth staff | | | |
| Sicrhau bod yr holl wybodaeth gyhoeddus yn hygyrch i bobl â nam ar eu synhwyrâu | | | |

| Safonau Darparu Gwasanaethau | Camau Gweithredu Allweddol a Gyflawnwyd yn ystod 2018-19 | Risgiau i Gyflawniad | Camau Unioni |
|--|--|----------------------|--------------|
| Systemau apwyntiadau hygyrch | | | |
| Modelau cyfathrebu | | | |
| Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Ymysg y meysydd blaenoriaeth mae: | | | |
| Codi ymwybyddiaeth staff | | | |
| Systemau apwyntiadau hygyrch | | | |
| Modelau cyfathrebu | | | |
| Gweithredu'r Safon Gwybodaeth Hygyrch | | | |
| Gofal Eilaidd. Ymysg y meysydd blaenoriaeth mae: | | | |
| Codi ymwybyddiaeth staff | | | |
| Systemau apwyntiadau hygyrch | | | |
| Modelau cyfathrebu | | | |
| Gweithredu'r Safon Gwybodaeth Hygyrch | | | |

| Safonau Darparu Gwasanaethau | Camau Gweithredu Allweddol a Gyflawnwyd yn ystod 2018-19 | Risgiau i Gyflawniad | Camau Unioni |
|---|---|-----------------------------|---------------------|
| Gofal Brys a Gofal heb ei Gynllunio Ymysg y meysydd blaenoriaeth mae: | | | |
| Codi ymwybyddiaeth staff | | | |
| Modelau cyfathrebu | | | |
| Pryderon ac Adborth Mae'r meysydd hyn yn cynnwys: | | | |
| Amlygu modelau presennol o Bryderon ac Adborth sydd ar waith a fyddai'n helpu unigolion â nam ar eu synhwyrâu i leisio pryder neu roi adborth | | | |
| Amlygu unrhyw Bryderon ac Adborth a ddaeth i law gan unigolion sydd â nam ar eu synhwyrâu a'r camau gweithredu a gymerwyd | | | |
| Profiad y claf* | Camau Gweithredu Allweddol a Gyflawnwyd yn ystod 2018-19 | Risgiau i Gyflawniad | Camau Unioni |
| Mae dulliau ar waith er mwyn ceisio a deall profiad y claf o gyfathrebu a gwybodaeth hygyrch | | | |
| | Themâu Allweddol | | Camau Unioni |
| Y themâu allweddol a gododd o adborth o brofiad cleifion (cadarnhaol a negyddol) | | | |
| <p>* Mae'r dulliau a'r themâu profiad cleifion y dylid eu nodi ar y ffurflen hon yn ymwneud yn benodol â chleifion â nam ar eu synhwyrâu sydd ag anghenion cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch. Mae gofyniad yn Fframwaith Cyflawni'r GIG i sefydliadau'r GIG roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brofiad cleifion i bob claf (nid dim ond y rhai ag anghenion o ran cyfathrebu neu wybodaeth hygyrch). Dylid nodi hyn ar ffurflen ar wahân, sef 'Tystiolaeth o sut mae sefydliadau yn ymateb i adborth gan gleifion er mwyn gwella gwasanaethau' ac mae'n gysylltiedig â Fframwaith y GIG ar gyfer Sicrhau Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaethau.</p> | | | |

Rhoi camau gweithredu'r iaith Gymraeg ar waith fel y'u diffiniwyd yn 'Mwy na Geiriau'

| | |
|-----------------------------------|--|
| Sefydliad y GIG | |
| Dyddiad yr Adroddiad | |
| Paratowyd yr Adroddiad gan | |

Disgwylir i bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth roi camau gweithredu ar waith i gyflawni'r fframwaith strategol hwn ar gyfer gwasanaethau iaith Gymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol: 'Mwy na geiriau'. Mae hwn wedi'i ddatblygu er mwyn diwallu anghenion gofal siaradwyr Cymraeg, eu teuluoedd neu ofalwyr. Dylai'r camau gweithredu i gyflawni'r fframwaith gwmpasu'r sectorau gofal sylfaenol ac eilaidd.

Amserlen Adrodd: Dylid llunio adroddiad ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu er mwyn cyflawni Mwy na Geiriau ddwywaith y flwyddyn. Dylid cyflwyno'r ffurflen hon ar 31 Hydref a 30 Ebrill.

Y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu i gyflawni Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau

| Maes Blaenoriaeth | le neu Na | Tystiolaeth Ategol | | |
|---|-----------|---|-------------------|--------------|
| | | Camau Gweithredu Allweddol a Gyflawnwyd | Risg i Gyflawniad | Camau Unioni |
| Asesiad o Anghenion y Boblogaeth Mae'r sefydliad wedi nodi anghenion iaith Gymraeg ei boblogaeth ac wedi'u defnyddio i gynllunio gwasanaethau. | | | | |
| Sgiliau iaith Gymraeg Mae'r sefydliad wedi nodi lefelau sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn cynllunio gwasanaethau. | | | | |
| Lle y ceir bylchau mewn sgiliau iaith Gymraeg, mae'r sefydliad wedi sicrhau y caiff swyddi gwag eu hysbysebu fel 'Cymraeg yn hanfodol'. | | | | |
| Sawl aelod o staff sydd wedi bod ar gwrs i ddysgu Cymraeg neu i wella eu hyder i siarad Cymraeg yn ystod y flwyddyn weithredol hon? | | | | |

| Maes Blaenoriaeth | le neu Na | Tystiolaeth Ategol | | |
|---|-----------|---|-------------------|--------------|
| | | Camau Gweithredu Allweddol a Gyflawnwyd | Risg i Gyflawniad | Camau Unioni |
| <p>Dewis a Phrofiad Cleifion Mae gan y sefydliad brosesau ar waith er mwyn cofnodi pan fydd Cynnig Gweithredol wedi'i wneud a sicrhau bod dewis iaith cleifion yn cael ei nodi ym mhob rhan o ofal sylfaenol a gofal eilaidd.</p> | | | | |
| <p>Mae gan y sefydliad ddulliau ar waith er mwyn cyfleu i staff pa mor bwysig yw gwneud Cynnig Gweithredol.</p> | | | | |
| <p>Mae'r sefydliad yn prif ffrydio'r profiad o wasanaethau Cymraeg fel rhan o'r wybodaeth a gafwyd/yr adborth gan gleifion.</p> | | | | |
| <p>Faint o gleifion y gofynnwyd iddynt am eu dewis iaith ac y mae'r dewis hwn wedi'i nodi ar eu cofnodion?</p> | | | | |
| <p>Gwasanaethau a Gomisiynwyd ac a Gontractwyd Mae'r sefydliad yn sicrhau y caiff ystyriaethau'r iaith Gymraeg eu cynnwys wrth gomisiynu a chontractio gwasanaethau yn cynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol</p> | | | | |
| <p>Rhannu Arfer Gorau Caiff arfer gorau o ran darparu gwasanaethau Cymraeg eu rhannu gyda'r holl staff perthnasol yn y sefydliad ac mae'r sefydliad hefyd yn rhannu arfer gorau â byrddau ac ymddiriedolaethau ieuchyd eraill.</p> | | | | |

Dylid anfon ffurflenni wedi'u cwblhau i: hss.performance@gov.wales

**MESURAU NAD YDYNT WEDI'U TROSGWLWYDDO I
FFRAMWAITH CYFLAWNI'R GIG AR GYFER 2018-19**

Mesurau Perfformiad yr adroddwyd arnynt yn 2017-18 nad ydynt yn Fframwaith Cyflawni'r GIG ar gyfer 2018-19

| | | |
|------------------------------------|---|--|
| Datganiad Canlyniadau'r GIG | Mesur Perfformiad y GIG (Rhif Cyf. a Disgrifiad o Fframwaith Cyflawni 2017-18) | |
|------------------------------------|---|--|

Cadw'n iach: Mae pobl yng Nghymru yn cael y wybodaeth a'r cymorth i reoli eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl eu hunain

| | | |
|---|---|---|
| Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud y pethau i gadw fy hun yn iach | 6 | Cyfradd yr achosion brys o dderbyn cleifion i'r ysbyty ar gyfer cyflyrau cronig basged 8 fesul 100,000 o boblogaeth y bwrdd iechyd |
| | 7 | Cyfradd yr achosion brys o aildderbyn cleifion i'r ysbyty (o fewn blwyddyn) ar gyfer cyflyrau cronig basged 8 fesul 100,000 o boblogaeth y bwrdd iechyd |

Gofal Diogel: Caiff pobl yng Nghymru eu hamddiffyn rhag niwed a chânt gefnogaeth i amddiffyn eu hunain rhag niwed hysbys

| | | |
|--|----|--|
| Rwy'n cael cymorth i amddiffyn fy iechyd fy hun a'm teulu | 13 | Cydymffurfiaeth ganrannol ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar amddiffyn plant ar gyfer staff cyflogedig |
| | 14 | Cydymffurfiaeth ganrannol ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar amddiffyn oedolion ar gyfer staff cyflogedig |
| Rwy'n ddiogel a chaf fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod | 31 | Nifer y cleifion ag anafiadau meinwe dwfn gradd 1,2,3,4 a amheuir ac wlsarau pwysau na ellir eu graddio a gafwyd yn yr ysbyty fesul 100,000 o achosion o dderbyn cleifion i'r ysbyty |
| | 33 | Cwblhau Archwiliad Diogelwch Meddyginiaeth Cymru Gyfan |

Gofal Effeithiol: Mae pobl yng Nghymru yn cael y gofal a chymorth cywir mor lleol â phosibl a chânt eu galluogi i gyfrannu at sicrhau bod y gofal hwnnw yn llwyddiannus

| | | |
|--|----|---|
| Mae ymyriadau er mwyn gwella fy iechyd yn seiliedig ar ymchwil ac arfer gorau amserol o ansawdd da | 41 | Arwydd o gynnydd yn erbyn y 21 o feini prawf ar gyfer defnydd gweithredol o rif y GIG |
| | 42 | Canran y staff sydd wedi cael hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth fel yr amlinellir yng Nghanllawiau C-PIP |

Gofal Unigol: Caiff pobl yng Nghymru eu trin fel unigolion sydd â'u hanghenion a'u cyfrifoldebau eu hunain

| | | |
|---|----|---|
| Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried | 92 | Canran yr ysbytai mewn bwrdd iechyd sydd â threfniadau ar waith er mwyn sicrhau bod gwasanaeth eiriolaeth ar gael i bob claf cymwys |
|---|----|---|

Ein Staff a'n Hadnoddau Gall pobl yng Nghymru gael gwybodaeth am sut y darperir adnoddau ar gyfer y GIG a sut i wneud defnydd gofalus ohonynt

| | | |
|--|----|---|
| Caiff adnoddau eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol er mwyn gwella fy nghanlyniadau iechyd | 99 | Cydbwysedd ariannol: Nid yw'r gwariant yn rhagori ar swm cyfanredol y cyllid a ddyrannwyd iddo dros gyfnod o dair blynedd |
|--|----|---|